Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar fonitro gan Estyn

**Ysgol Gynradd Cymer Afan**
**Stryd Margam**
**Cymmer**
**Port Talbot**
**SA13 3EE**

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Peter Roach | Arolygydd Tîm |
| Sharon Pruski | Cynrychiolydd yr awdurdod lleol |

## Canlyniad yr ymweliad monitro

Bernir bod Ysgol Gynradd Cymer Afan wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhelliad yn dilyn yr arolygiad craidd ym mis Hydref 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ailymweld â'r ysgol ymhen tua 12 mis i arolygu cynnydd yn ôl yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu gwreiddiol.

Bu newid sylweddol ymhlith staff addysgu ac uwch reolwyr yr ysgol ers yr arolygiad. Bellach, mae Ysgol Gynradd Cymer Afan yn rhan o Ffederasiwn Ysgolion Cwm Afan Uchaf ac mae o dan arweinyddiaeth newydd. Mae arweinydd y cyfnod cynradd wedi ymgymryd â'i gyfrifoldebau dros yr ysgolion cynradd yn y ffederasiwn ers dechrau'r tymor.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Codi safonau mewn darllen, ysgrifennu, rhifedd a TGCh ar draws yr ysgol

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae data'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer 2012 yn dangos bod yr ysgol yn perfformio gerllaw'r hyn a ddisgwylir yn ôl lefel yr her sydd ganddi yn ei theulu. O gymharu ag ysgolion tebyg ar sail prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg ac mewn datblygiad mathemategol yn yr 50% uchaf. Fodd bynnag, mae ystyriaethau arwyddocaol o safbwynt y rhywiau, ac mae merched yn perfformio'n well na bechgyn. Nid oedd yr un disgybl wedi cyflawni'r deilliant uwch yn y meysydd dysgu hyn yn 2012.

Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2012 yn rhoi'r ysgol ymhlith yr 50% isaf o ysgolion tebyg o ran Saesneg a mathemateg. Nid yw'r canlyniadau hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion, yn enwedig mewn darllen a llefaredd, ac yn hyn o beth, mae perfformiad yr ysgol yr isaf yn y teulu. Er bod safonau ysgrifennu'n dangos gwelliant, maent yn parhau islaw cyfartaledd y teulu. Mae merched yn perfformio'n llawer gwell na'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 2 hefyd, ac ni wnaeth yr un bachgen gyflawni'r lefel 5 uwch mewn unrhyw agwedd ar lythrennedd neu fathemateg yn 2012.

Mae craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr yn dangos bod safonau darllen ac ysgrifennu'n gwella'n araf. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliannau hyn wedi cael amser hyd yn hyn i effeithio'n ddigonol ar gyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae mwyafrif disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn darllen yn gywir ac yn rhugl, gyda mynegiant a dealltwriaeth dda. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion wedi datblygu ystod ddigon eang o strategaethau ffonig a strategaethau eraill i'w helpu i roi cynnig ar eiriau anghyfarwydd. Mae mwyafrif y disgyblion yng nghyfnod

allweddol 2 yn darllen yn hyderus ac yn rhugl ac yn enwi awduron y maent yn mwynhau eu gwaith. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gallu defnyddio'r medrau darllen lefel uwch fel sgimio a sganio testun yn ddigon da.

Mae disgyblion y blynyddoedd cynnar yn dechrau strwythuro'u llythrennau'n gywir, ac mae disgyblion iau yn trosysgrifo'n gywir. Wrth iddynt fynd ymlaen drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn datblygu mwy o ddealltwriaeth o sut i ffurfio brawddegau. Mae ychydig ddisgyblion mwy abl yn defnyddio geirfa ddiddorol a phriodol yn eu hysgrifennu.

Mae ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n briodol ar y medrau a ddysgwyd yn y Cyfnod Sylfaen. Erbyn iddynt gyrraedd blynyddoedd 5 a 6, mae mwyafrif y disgyblion yn gallu ysgrifennu'n estynedig ac i gynulleidfaoedd gwahanol. Er bod y cyflwyniad wedi gwella, mae gormod o enghreifftiau o hyd o waith sydd wedi'i gyflwyno'n wael. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu ar draws ystod addas o genres ac at amrywiaeth o ddibenion. Fodd bynnag, mae gorddefnyddio taflenni gwaith yn amharu ar allu'r disgyblion mwy abl a dawnus i ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n llawn.

Erbyn hyn, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn briodol ar draws y cwricwlwm.

**Argymhelliad 2: Parhau i ddatblygu gweithdrefnau asesu fel y caiff gwybodaeth ei defnyddio'n llawn i godi safonau a sicrhau bod disgyblion yn chwarae mwy o ran mewn asesu eu gwaith**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae gweithdrefnau asesu yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau yn yr ystafell ddosbarth. Mae data asesu'n dechrau cael ei ddefnyddio'n effeithiol i nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt ar ffurf strategaethau ymyrraeth. Fodd bynnag, nid yw data'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol i gefnogi disgyblion mwy abl a galluog neu i fynd i'r afael â'r bwlch arwyddocaol rhwng y rhywiau.

Mae gweithdrefnau cymedroli asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn fwy cadarn erbyn hyn. Mae'r holl staff wedi cael eu cynnwys yn llawn yn y broses ac mae asesiadau wedi'u cymedroli'n llawn ar lefel leol ac ar lefel y consortiwm.

Mae ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ond heb eu gweithredu'n gyson ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol eto. Mae cyfraniad disgyblion at arfarnu eu cynnydd eu hunain yn datblygu ond nid yw wedi'i ymgorffori'n llawn eto.

**Argymhelliad 3: Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau er mwyn sicrhau parhad a dilyniant ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o gynllun masnachol sydd wedi'i seilio ar bynciau er mwyn cefnogi a datblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn llywio'r cynllunio tymor byr a thymor canol ar gyfer datblygu medrau, ynghyd â chynlluniau gwaith. Mae'r dewis o themâu yn ennyn diddordeb disgyblion, yn enwedig bechgyn, mewn dysgu, yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau yn eu gwaith mewn pynciau yn dechrau cael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, caiff gormod o daflenni gwaith eu defnyddio o hyd ac mae hyn yn rhwystro gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. At hynny, ni chaiff disgyblion mwy abl a dawnus eu herio'n ddigonol.

Mae dull yr ysgol o fonitro datblygiad medrau drwy arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau yn nodi rhai meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, ni chaiff y dystiolaeth a gesglir ei defnyddio'n ddigonol i arfarnu effaith a chynnydd disgyblion ac i lywio cynllun gwella'r ysgol.

**Argymhelliad 4: Datblygu system gadarn i fonitro pob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol a sicrhau bod hunanarfarnu yn systematig, yn drylwyr a'i fod yn canolbwyntio'n gadarn ar ddeilliannau disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae tîm arwain yr ysgol wedi cyflwyno amrywiaeth o fentrau yn dilyn yr arolygiad ym mis Hydref 2011 i ddechrau mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae hunanarfarnu ffurfiol yn dechrau dod yn rhan fwy rheolaidd o fywyd yr ysgol erbyn hyn ac mae'n cynnwys rhanddeiliaid yn y broses. Fodd bynnag, nid yw hunanarfarnu'n gadarn nac yn ddigon hunanfeirniadol o hyd.

Erbyn hyn, mae rhaglen dreigl addas ar gyfer arfarnu safonau ym mhob pwnc dros gyfnod o dair blynedd. Hefyd, mae'r ysgol wedi dosbarthu holiaduron addas i gasglu barn rhieni a disgyblion ac wedi rhoi sylw da i awgrymiadau.

Mae data'r ysgol a'i thueddiadau mewn perfformiad yn cael eu dadansoddi a'u rhannu gyda'r llywodraethwyr a staff yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at nodi rhai meysydd lle y mae angen gwelliant a thargedau i'w cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae arweinwyr pynciau a'r uwch dîm rheoli yn cymryd rhan mewn proses systematig o arsylwi dosbarthiadau, edrych drwy lyfrau, gwrando ar ddysgwyr ac olrhain disgyblion. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau monitro ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at wanwyn 2013 yn ddigon arfarnol. Nid yw meysydd i'w gwella wedi'u nodi'n ddigon clir er mwyn llywio cynllunio ar gyfer gwella.

Nid yw adroddiad hunanarfarnu diweddar yr ysgol yn ddigon trylwyr o ran arfarnu'r ddarpariaeth a'r safonau. Mae hyn yn arbennig o wir o ran llythrennedd oherwydd nodwyd mai ar lefaredd yn unig yr oedd angen targedau mesuradwy. Nid yw cynllun datblygu'r ysgol yn nodi dau faes allweddol y mae angen eu gwella'n sylweddol, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2.

**Argymhelliad 5: Datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethol a rhanddeiliaid eraill mewn hunanarfarnu a gwella'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae llywodraethwyr yn dechrau chwarae mwy o ran ym mhroses hunanarfarnu'r ysgol. Cânt adroddiadau bob tymor gan y pennaeth ac maent yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r cynnydd a wneir yn unol â'r targedau yn y cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

Mae'r corff llywodraethol wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio data'r ysgol trwy gydweithio'n agos â'r ysgol uwchradd leol. Mae rhai llywodraethwyr hefyd yn mynychu cyrsiau hyfforddi llywodraethwyr gan yr awdurdod lleol, sy'n eu gwneud yn fwy ymwybodol o ddatblygiadau a phrosesau newydd yn yr awdurdod lleol ac ymhellach i ffwrdd. Drwy hyn, mae eu dealltwriaeth o ddata yn gwella. Fodd bynnag, mae llywodraethwyr yn dibynnu'n ormodol ar y wybodaeth a roddir iddynt.

Gan na chafodd y bwlch sylweddol rhwng y rhywiau a phrinder disgyblion yn cyflawni'r lefelau uwch yn y ddau gyfnod eu nodi i'w cynnwys yng nghynllun gwella newydd yr ysgol, nid ydynt yn gallu dwyn yr ysgol i gyfrif ynghylch y meysydd hyn yn ddigonol. Mae eu rôl fel ffrindiau beirniadol i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn cael ei rhwystro ymhellach gan nad yw'r targed llythrennedd yn y cynllun yn cynnwys targedau mesuradwy ar gyfer darllen ac ysgrifennu.

Mae'r ysgol yn llwyddo i ddatblygu rôl rhanddeiliaid eraill mewn hunanarfarnu a gwella'r ysgol. O ganlyniad, bu gwelliant yng nghysylltiad rhieni â dysgu eu plant. Mae disgyblion a rhieni yn ymwybodol o dargedau gwella'r ysgol.

## Argymhellion

Dylai'r ysgol barhau i weithio tuag at fodloni'r argymhellion arolygu na aethpwyd i'r afael â nhw'n llawn eto.